



CRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD ADRODDIAD BLYNYDDOL

MAE'R ADRODDIAD HWN YN
YMDRIN Â CHYNNAL Y
GRONFA HYD AT FEDI'R
30AIN 2020

BRENIG WIND LTD COMMUNITY BENEFIT FUND ANNUAL REPORT

THIS REPORT COVERS THE
OPERATION OF THE FUND UP
TO 30TH SEPTEMBER 2020



*Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency*



BRENIG WIND LTD

CYNNWYS CONTENTS

TUDALEN / PAGE

Rhagair gan David Heelan – Brenig Wind Ltd	1
Foreword by David Heelan – Brenig Wind Ltd	
Cyflwyniad	2
Introduction	
Panel Grantiau Brenig Wind Ltd a Gweinyddiaeth Cadwyn	4
Clwyd	
Brenig Wind Ltd Grants Panel & Cadwyn Clwyd	
Administration	
Ymgynghoriad Cymunedol	11
Community Consultation	
Ymgysylltu â'r Gymuned, Marchnata a Chyfathrebu	12
Community Engagement, Marketing & Communications	
Y Daith Hyd yn Hyn	14
The Journey to Date	
Grantiau Wedi'u Cyflwyno Hyd yn Hyn	16
Grants Awarded to Date	
Deilliannau ac Effaith Cronfa Brenig Wind Ltd	22
Brenig Wind Ltd Outputs & Impacts	
Crynodeb o'r Grantiau	28
Summary of Grants	
Incwm a Gwariant	30
Income & Expenditure	
Atodiad A - Adroddiad Archwiliwr Annibynnol	32
Appendix A - Independent Examiners Report	
Atodiad B - Meini Prawf y Gronfa	33
Appendix B - The Fund Criteria	

RHAGAIR FOREWORD

Mae'n bleser gan Brenig Wind Ltd. allu cefnogi grwpiau a mentrau cymunedol lleol yn Sir Ddinbych a Chonwy. Fel datblygiad newydd yn yr ardal, rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gydag a chefnogi mwy o fentrau a grwpiau lleol wrth edrych tua'r dyfodol ynghyd ag ymwneud mwyfwy â'r gymuned.

Mae cefnogaeth gymunedol ymysg un o brif werthoedd y cwmni ac mae'n wych gweld buddion sylweddol y gronfa gymunedol i drigolion yr ardal.

Brenig Wind Ltd. are delighted to be able to support local community groups and enterprises within Denbighshire & Conwy as a new development within the area, we look forward to working with and supporting more local enterprises and groups going forward for the long term and becoming increasingly involved in the local community.

Community support is a key value for the company, and it is great to see the tangible benefits that the community fund is bringing to local people.

DAVID HEELAN

BRENIG WIND LTD

CYFLWYNIAID INTRODUCTION

Mae Brenig Wind Limited yn ardal Cyngor Cymuned Nantglyn a ward etholiadol Llanrhaeadr yng Nghinmeirch yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Mae Brenig Wind Ltd yn cynnig cronfa budd cymunedol gwerth bron i £4 miliwn dros gyfnod o 25 mlynedd ac erbyn hyn mae modd i gymunedau yn nalgylch Brenig fanteisio ar y gronfa. Fe gafodd y fferm wynt, y mae Brenig Wind Limited yn berchen arni, ei sefydlu ym mis Mawrth 2019 a chanddi 16 tyrbin i gyd. Mae pob un o'r tyrbinau'n cynhyrchu 2.35MW sy'n golygu bod cyfanswm yr ynni gaiff ei gynhyrchu'n 37.6MW. Mae hyn yn ddigon i gynnal dros 30,000 o gartrefi pob blwyddyn. Fe gaiff y gronfa ei dosbarthu rhwng prosiectau a mentrau cymunedol yn yr ardal.

Yn 2018, fe gafodd Cadwyn Clwyd eu penodi gan Brenig Wind Ltd fel gweinyddwr y gronfa. Mae Cadwyn Clwyd yn Asiantaeth Datblygu Gwledig sy'n gyfrifol dros reoli a chynnal prosiectau, cynnig cefnogaeth ymarferol a chyllid grant er mwyn datblygu ac arallgyfeirio'r economi yng Ngogledd Ddwyrain Cymru drwy gyllid sector cyhoeddus, sector preifat a'r trydydd sector. Mae Cadwyn Clwyd yn gweithredu ers 25 mlynedd ac mae wedi hen ennill ei blwyf fel asiantaeth sy'n cefnogi, ariannu a datblygu prosiectau yn yr ardal. Bu i Cadwyn Clwyd gyflwyno dros £30miliwn i gymunedau'n uniongyrchol er mwyneu cefnogi gyda sectorau megis:

Brenig Wind Limited is located in the Community Council area of Nantglyn and the electoral ward of Llanrhaeadr yng Nghinmeirch within Denbighshire County Council.

Brenig Wind Ltd provides a community benefit fund of almost £4 million over 25 years is now available for communities surrounding the Brenig site. The windfarm owned by Brenig Wind Limited became operational in March 2019 and has 16 turbines each of 2.35MW, giving a total installed capacity of 37.6MW – enough to power over 30,000 homes every year. The fund is to be distributed to local community projects and initiatives.

In 2018, Cadwyn Clwyd was appointed by Brenig Wind Ltd as administrator of the fund. Cadwyn Clwyd is a Rural Development Agency, which provides project management and delivery, hands on support and grant funding to develop and diversify the economy in North East Wales through public, private and third sector funding. It is firmly established as a supporter, funder and deliverer of projects in the area having been operational for 25 years, directly delivering over £30million of support to communities within sectors such as: Diversification of Agriculture, Agri-Food & Speciality Foods, Environmental Schemes, Community Renewable Energy, Cultural Tourism, Green Tourism, Heritage and Conservation Projects, Social Enterprise Development, Community Development, Community Capacity Building, Access to Services and Skills & Training.

Arallgyfeirio Amaethyddol, Bwydydd Amaethyddol a Bwydydd Arbenigol, Cynlluniau Amgylcheddol, Ynni Adnewyddadwy Cymunedol, Twristiaeth Ddiwylliannol, Twristiaeth Werdd, Prosiectau Treftadaeth a Chadwraeth, Datblygu Mentrau Cymdeithasol, Datblygu Cymunedol, Adeiladu Galluoedd Cymunedol, Mynediad i Wasanaethau a Sgiliau a Hyfforddiant.

Mae cronfa Brenig yn cynnig cyfanswm o £150,000 y flwyddyn wedi'i fynegrifio dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer cynnal a gweinyddu'r gronfa budd cymunedol. Yn ystod y cyfnod cofnodi cyfredol, fe gafodd tair rownd cyllid eu lansio gyda grantiau gwerth £270,000 ar gael. Mae'r cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer 2019 a 2020.

The Brenig fund provides a total of £150,000 per annum index linked over 25 years for the community benefit fund including its administration. During the current reporting period, three rounds of funding were launched with a total of £270,000 grants available, this constitutes funds for 2019 and 2020.



PANEL GRANTIAU BRENIG WIND LTD A GWEINYDDIAETH CADWYN CLWYD

BRENIG WIND LTD GRANTS PANEL AND CADWYN CLWYD ADMINISTRATION

Mae Panel Grantiau yn gyfrifol am oruchwyllo gweinyddiaeth Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd ac ymysg aelodau'r Panel mae unigolion sy'n byw, gweithio neu wirfoddoli yn yr ardal. Mae'r panel yn gweithredu gan gydymffurfio gyda chylch gorchwyl y cytunwyd arno ac maen nhw'n cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn asesu ceisiadau grant a chynnig argymhellion i Brenig Wind Ltd o ran pa brosiect ddylen nhw ei gefnogi. Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu i'r panel gyfarfod deir gwaith er mwyn asesu'r tair rownd o geisiadau cyllid.

Aeth Cadwyn Clwyd ati i ffurfio'r panel ym mis Hydref 2018 yn dilyn anfon gwahoddiad agored am unigolion â diddordeb ar sail manyleb person. Mae 8 aelod ar y panel i gyd. Mae 2 ohonyн nhw'n gynrychiolwyr o awdurdodau lleol gafodd eu penodi'n dilyn gwahoddiad gan Cadwyn Clwyd ac fe gafodd y 6 aelod sy'n weddill eu dewis o bobl sy'n byw, gweithio neu wirfoddoli yn yr ardal sy'n elwa. Cafodd 38 cais eu cyflwyno ac aeth Cadwyn Clwyd a'r ddau gynrychiolydd o'r awdurdodau lleol ati i ddwyn i ystyriaeth y ceisiadau. Mae gan y panel amrywiaeth o unigolion grymus sydd wedi'u greiddio'n gadarn yn yr ardal ac sy'n ymroi i ofalu bod yr ardal yn ffynnu.

Cafodd dwy swyddog Cadwyn Clwyd eu penodi i gynnal y gronfa, Lowri Owain Rheolwr y Cwmni a Helen Williams Swyddog Menterau Cymdeithasol gyda chefnogaeth gan y Rheolwr Cyllid, Delyth Edwards a'r Swyddog Busnes a Chyfathrebu, Donna Hughes.

Mae cydweithio yn rhan annatod o ethos Cadwyn Clwyd ac fel y cyfryw mae dau swyddog awdurdod lleol yn cydweithio gyda swyddogion Cadwyn Clwyd i gynnig cefnogaeth barhaus i gymunedau a grwpiau. Y cynrychiolwyr hynny ydy Fran Rhodes sy'n Swyddog Datblygu Cymunedol yng Nghyngor Sir Ddinbych ac Ela Williams sy'n Swyddog Cymuned, Diwylliant a Threftadaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.



The Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund administration is overseen by a Grants Panel of individuals living, working, or volunteering in the area. The panel operates under an agreed terms of reference and meets a minimum of twice a year to assess grant applications and make recommendations to Brenig Wind Ltd as to which projects should be supported. During the last 12 months, the panel has met three times, to assess the three rounds of funding applications.

Cadwyn Clwyd formed the panel in October 2018 following an open invitation from interested individuals based on a person specification. The panel comprises of 8 members, 2 local authority representatives were appointed following an invitation from Cadwyn Clwyd to each local authority, the 6 remaining spaces were drawn from people who live, work or volunteer in the area of benefit. 38 applications were received and appraised by Cadwyn Clwyd and the two local authority representatives. The panel has a cross section of dynamic individuals who are firmly rooted in the area and are committed to making the best for the area.

The fund has two Cadwyn Clwyd officers assigned to its delivery, Lowri Owain Company Manger and Helen Williams Community Enterprise Officer, with support from the Finance Manager Delyth Edwards and Business and Communications Officer, Donna Hughes.

Cadwyn Clwyd's ethos is firmly rooted on partnership working, and as such has two local authority officers working alongside Cadwyn Clwyd officers to provide ongoing support to communities and groups. These are Fran Rhodes, Community Development Officer at Denbighshire County Council and Ela Williams, Community, Culture & Heritage Officer at Conwy County Borough Council.

PANEL GRANTIAU

GRANTS PANEL

LLYR JONES - Cadeirydd

Mae Llyr yn byw ar fferm Derwydd a bu'n ffermio yno ers 1999. Mae ganddo ddiadell bersonol o 1100 o ddefaid ynghyd ag uned wyau buarth sy'n gartref i 16,000 o ieir. Mae Llyr hefyd yn gydberchennog ar Blodyn Aur, cwmni olew had rŵp Cymraeg sy'n gwerthu oddeutu 6000 potel y mis i fasnachwyr bwyd bach ledled Cymru ac i archfarchnadoedd hefyd. Yn dilyn y deddfau stoc marw newydd yn 2005, bu i Llyr arwain grŵp o 10 o ffermwyr yr ardal gan sefydlu'r llosgydd cydweithredol di-elw cyntaf o'i fath. Mae Llyr yn dal yn ysgrifennydd ar y cwmni hyd heddiw ac yn ddiweddar bu iddo gymryd yr awenau fel trysorydd hefyd.

LLYR JONES - Chairman

Llyr lives at Derwydd farm where he has been farming since 1999. Llyr runs a closed flock of 1100 ewes together with a 16,000 hen free range egg unit. He is also co-owner of Blodyn Aur, a Welsh rapeseed oil company which sells around 6,000 bottles per month to small food retailers throughout Wales and to the supermarkets. Following the introduction of new fallen stock laws in 2005, Llyr led a group of 10 local farmers and started the first non-profit, cooperative incinerator for which he is still company secretary and more recently took over the role of treasurer. The company now provides around 90 farmers with a cost-effective solution to

Mae'r cwmni erbyn hyn yn cynnig modd cost effeithiol i oddeutu 90 o ffermwyr i allu gwaredu â stoc marw ac mae hefyd yn ganolfan casglu plastig. Bu Llyr yn aelod o Gyngor Cymuned Llanfihangel Glyn Myfyr ers 2003.

PRYS ELLIS

Mae Prys yn aelod o Gyngor Cymuned Cerrigydudion ers dros chwarter canrif ac wedi bod yn gadeirydd y Cyngor Cymuned ar sawl achlysur. Mae hefyd yn cynrychioli Cyngor Cymuned fel aelod o Gorff Llywodraethol yr ysgol leol ac wedi bod yn aelod yn y gorffennol fel rhiant-lywodraethwr. Mae'n flaenor yng Nghapel Cefn ac yn aelod o Gôr Meibion Llangwm.

Mae Prys wedi byw yn ardal Uwchaled trwy gydol ei fywyd. Yn ystod ei yrfa mae wedi gweithio fel gyrrwr lori i gwmni cludiant masnachol ac amaethyddol, wedi ffermio mewn partneriaeth am dros ugain mlynedd ac ers dros deunaw mlynedd yn gweithio yn ffatri trelars Ifor Williams.

DOUG TIDSWELL

Mae Doug a'i deulu wedi ymgartrefu yn Nantglyn ers oddeutu 12 mlynedd bellach, gan chwarae rhan weithgar mewn sawl gweithgaredd cymunedol fel y grŵp drama a grŵp celf a chrefft. Mae hefyd ynglhwm â'r Grŵp Gweithgareddau Gwledig sy'n trefnu oddeutu 6 digwyddiad pob blwyddyn ar gyfer trigolion ein cymuned a'r fro. Mae Doug yn Ymddiriedolwr ar bwylgor fferm wynt Arian Gwynt ers 7 mlynedd bellach ac yn drysorydd arno ers 2 flynedd.

dispose of fallen stock and are also a collection center for plastics. Llyr has been a member of Llanfihangel Glyn Myfyr Community Council since 2003.

PRYS ELLIS

Prys has been a member of Cerrigydudion Community Council since over a quarter of a century and has chaired the Council's meetings on several occasions. He also represents the Community Council as a member of the local school's Governing Body and was also parent-councillor on the board at one time. He is a Leader of Capel Cefn and a member of Llangwm's Male Voice Choir.

Prys has lived in the Uwchaled area all his life. Throughout his career he has worked as a lorry driver for an Agricultural and Commercial Haulage Company, has farmed in partnership for over twenty years and has worked in Ifor Williams trailers' factory for over eighteen years.

DOUG TIDSWELL

Doug and his family have been residents in the village of Nantglyn for some 12 years, playing an active part in many community activities including the drama group, arts and craft group and he is also involved with the Rural Activities Group who arrange approximately 6 events each year for all residents of the community and the wider area. Doug is currently a Trustee of the Arian Gwynt Wind Farm committee and has been for some 7 years, including 2 years as treasurer.

Mae Doug yn Dirfesurydd Adeiladau Siartredig a Rheolwr Prosiect sy'n meddu ar 40 mlynedd o brofiad yn y maes. Bu hefyd ynghlwm â cheisiadau am gyllid gyda'r Loteri Genedlaethol yn y gorffennol gan ofalu bod y ceisiadau'n bodloni'r meini prawf penodol a bod systemau rheoli llym mewn lle er mwyn sicrhau gwariant priodol.

Doug is a Chartered Building Surveyor and Project Manager with 40 years of experience in this profession. He has also been involved with National Lottery funding submissions in the past, ensuring the set criteria for applications are met and rigorous control systems are in place to ensure appropriate spending.

GERAINT LLOYD

Mae Geraint wedi byw yn Nantglyn ers 1977 a chyn hynny yn byw yn Ninbych ac wedi bod yn cadw diadell o 200 o ddefaid yn ogystal a gweithio'n llawn amser. Mae Geraint yn drysorydd Sioe Nantglyn a Cneifio Cyflym Hiraethog ac yn archwilio llyfrau Ysgolion lleol yn flynyddol. Mae hefyd yn flaenor yng Nghapel Peniel a tra roedd Ysgol Gynradd Nantglyn mewn bodolaeth yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yno. Mae Geraint wedi ymddeol o waith llawn amser fel Rheolwr Cyllid yn y Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru ers rhai blynnyddoedd bellach ond yn dal i weithio rhan amser gyda busnesau bach lleol.

GERAINT LLOYD

Geraint has lived in Nantglyn since 1977 and resided in Denbigh before then. He keeps a flock of 200 sheep and works full time. Geraint is a treasurer for Sioe Nantglyn and Hiraethog Speed Shearing and also audits local Schools' books annually. He is also a Leader in Capel Peniel and whilst Nantglyn Primary School was still open he was Chairman of the School Councillor's Board. Geraint retired from his full time post as a Finance Manager in the North Wales Probation Service a few years back but continues to work part time with small local businesses.



ELERI ROBERTS

Mae Eleri yn wreiddiol o Bentrefoelas a bu'n gweithio i Ffermwyr Ifanc Clwyd fel eu Trefnydd Sirol gan gynnal y gweithgareddau sirol a chadw trefn ar y 12 clwb. Yn dilyn ei hymddeoliad diweddar, mae hi'n parhau i wirfoddoli ar ran y Clwb Ffermwyr Ifanc, y Sioe Frenhinol a sioeau amaethyddol yn yr ardal. Mae Eleri hefyd yn aelod o Gyngor y Byd ar ran y pwylgor cneifio ac yn aelod o CARAS.

ELERI ROBERTS

Eleri is from Pentrefoelas and has worked for the Clwyd Young Farmers as their County Organiser, running the county activities and keeping the 12 clubs in order. Following her recent retirement, she continues to volunteer for the Young Farmers and also the Royal Welsh Show and local agricultural shows in the area. She is also a member of the World Council for the shearing committee and a member of CARAS.

SIAN ROGERS

Mae Sian yn Gyfarwyddwr Gogledd a Chanolbarth Cymru, Urdd Gobaith Cymru ers 2010, yn arwain y gwaith leuenctid a Chymunedol ar hyd Gogledd Cymru. Mae hi'n gyfrifol am gyfeiriad strategol yr Urdd ar draws y 7 Sir, yn ogystal â gwerthuso effaith y gwaith ar bobl ifanc ac ar y Gymraeg. Mae ei gwaith yn cynnwys hwyluso ac yn sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc i fynegi eu llais, dathlu eu cyfraniad o fewn eu cymuned a'u hannog i wirfoddoli ac i ehangu eu sgiliau. Mae Sian hefyd yn datblygu partneriaethau yn gyson ac fel rhan o'r swydd yn cydweithio yn agos a'r Awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru yn ogystal a mudiadau trydydd sector.

SIAN ROGERS

Sian is a Director of North and Mid Wales' Urdd Gobaith Cymru since 2010 and is responsible for leading the Youth and Community work all over North Wales. She is also responsible for the Urdd's strategic direction in all 7 counties as well as evaluating the Urdd activities' impact on young people and the Welsh language. As part of her work, she facilitates and organises opportunities for young people to share their opinions, celebrate their contribution in their communities and also encourages them to volunteer and develop their skills further. Sian also regularly develops partnerships and works closely with Local Authorities, the Welsh Government as well as third sector organisations as part of her work.



FRAN RHODES

Mae Fran yn aelod o dîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych. Fel rhan o'i gwaith mae hi'n cydweithio gyda grwpiau cymunedol, trigolion a Chyngorau Dinesig, Tref a Chymuned ledled y sir i ddatblygu syniadau prosiectau a chynnig cyngor ac arweiniad. Mae ei thîm hefyd yn cefnogi nifer o baneli grantiau lleol. Cyn ymuno gyda'r Cyngor bu Fran yn gweithio yn y trydydd sector ar brosiectau presgripsiynu cymdeithasol a bu iddi gyflawni sawl rôl wirfoddol gyda mudiadau fel y Groes Goch Brydeinig a'r RDA.

FRAN RHODES

Fran works within Denbighshire County Council's Community Development team. Her role involves working with community groups, residents and City, Town and Community Councils across the county to develop project ideas and offer guidance. Her team also supports a number of other local grant panels. Before joining the Council she worked within the third-sector on social prescribing projects and has held various voluntary roles with organisations such as the British Red Cross and RDA.

ELEN EDWARDS

Yn ddiweddar fe gafodd Elen ei phenodi fel Pennaeth Adran Busnes a Thwristiaeth ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Cyn hynny bu'n gweithio fel Rheolwr Strategaeth Datblygu Gwledig i GBSC am ddeg mlynedd a chanddi brofiad helaeth o weithio ar brosiectau cyfalaf a chyllid o brosiectau lleol ar raddfa lai i brosiectau strategol sylweddol. At hyn, mae Elen yn meddu ar brofiad o weithio yn y Sector Tai lle bu iddi gychwyn ei gyrra, cyn iddi ennill profiad pellach yn gweithio fel Rheolwr Cyllid Allanol i Gyngor Sir Ddinbych. Bu'n ymddiddori mewn datblygu gwledig ers y cychwyn cyntaf ac mae hi'n medru bwrw golwg strategol ar bolisiâu a mentrau ehangach er mwyn gofalu caiff anghenion a diddordebau trigolion cefn gwlad, cymunedau a busnesau yng Nghonwy eu dwyn i ystyriaeth yn drylwyr.

ELEN EDWARDS

Elen works for Conwy County Borough Council (CCBC) as the recently appointed Section Head for Business and Tourism. Before this Elen held the Rural Development Strategy Manager for CCBC for ten years and has vast experience of working on capital and revenue projects from smaller scale grass roots projects to major strategic projects. Elen has the added experience of starting her career in Housing and then moving to Denbighshire County Council as the External Funding Manager. She has always enjoyed rural development, this coupled with having a strategic eye on wider policies and initiatives to ensure that the needs and interests of the people of rural areas, communities and businesses in Conwy are fully taken into account.

LOWRI OWAIN

Lowri ydy'r Rheolwr Grantiau ar ran Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd. Mae hi hefyd yn rheolwr ar Cadwyn Clwyd ac yn gyfrifol am reoli mentrau datblygu cymunedol ac adfywio economaidd lleol. Yn ystod ei 22 mlynedd yn gweithio i Cadwyn Clwyd, bu i Lowri lwyddo i gynnal, rheoli a goruchwyllo cynlluniau adfywio, datblygu economaidd lleol a datblygu lleol o dan arweiniad y gymuned ynghyd ag ennill grantiau a chyllid cyfatebol gwerth £30miliwn gan ystod eang o arianwyr a mudiadau.

LOWRI OWAIN

Lowri is the Grants Manager for the Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund. She is also manager of Cadwyn Clwyd, where she manages the delivery of community development and local economic regeneration initiatives. During her 22 years with Cadwyn Clwyd she has secured, managed and overseen the delivery of £30million of regeneration, local economic development and community led local development programmes, grants and match-funding from a wide variety of funders and organisations.

HELEN WILLIAMS

Mae Helen yn Gydlynnydd Grantiau ar ran Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd. Bu hi'n gweithio fel swyddog prosiect i Cadwyn Clwyd ers 1999 gan gyfrannu tuag at amrywiaeth eang o brosiectau economaidd a datblygu cymunedol dros y blynnyddoedd. Fel rhan o'i swydd gyda Cadwyn Clwyd, mae Helen yn gyfrifol am gydwelthio gyda grwpiau cymunedol a busnesau cefn gwlad ar brosiectau'n ymwneud â chludiant cyhoeddus, mentrau cymdeithasol, manteisio ar wasanaethau, datblygu siopau cymunedol newydd a helpu cymunedau i fanteisio i'r eithaf ar eu hasedau.

HELEN WILLIAMS

Helen is a Grants Co-ordinator for the Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund. She has worked as a project officer with Cadwyn Clwyd since 1999 on a wide variety of projects economic and community development projects over the years. Helen's role with Cadwyn Clwyd involves working with community groups and rural businesses on projects such as community transport, social enterprises, access to services, the development of new community shops and helping communities to make the most of their assets.

YMGYNGHORIAD CYMUNEDOL

COMMUNITY CONSULTATION

Bu i Cadwyn Clwyd gynnal proses ymgynghori trwyadl a chwbl ddwyieithog tuag at ddiwedd 2018 ac fe arweiniodd y proses hwn at sefydlu'r gronfa. Cafodd y broses ymgynghori ei hysbysebu'n eang drwy ddatganiad i'r wasg a bu sylw helaeth yn y wasg yn dilyn hynny yn y Daily Post, Denbighshire Free Press a ffynonellau newyddion ar-lein. Fe ddosbarthwyd posteri ledled yr ardal ac fe rannwyd gwybodaeth helaeth ar gyfryngau cymdeithasol Cadwyn Clwyd a chyfryngau cymdeithasol mudiadau partner. Bu'r ymgynghoriad yn canolbwytio ar y canlynol:

- Barn y gymuned am yr ardal a'u syniadau ynghylch beth ddylid ei newid neu ei wella yn yr ardal
- Safbwyt y gymuned o ardal o fudd y grant
- Safbwyt yr ymatebwyr ynghylch trothwyon y grant
- Adborth ynghylch y rhai hynny ddylai fod yn gymwys i geisio am y gronfa
- Blaenoriaethau'r gronfa
- Aelodaeth a maint y Panel Grantiau

I gyflawni hyn oll, bu i Cadwyn Clwyd gynnal digwyddiadau galw heibio i'r gymuned, un yn Henllan ar Dachwedd y 27ain 2018 ac un arall yng Nghlawdd Newydd ar Dachwedd y 26ain 2018. Roedd y ddua ddigwyddiad o dan eu sang gyda dros 120 o bobl yn bresennol yn ymddynt nhw.

Bu hefyd holiadur ar-lein lle bu i 261 ymateb iddo a mynchyu'r sesiynau galw heibio. Cyflwynodd Cadwyn Clwyd adroddiad ymgynghori i Brenig Wind Ltd ac yn sgil adborth y gymuned fe aeth Cadwyn Clwyd ati i lunio mein prawf y gronfa.

Cadwyn Clwyd undertook a rigorous and fully bilingual consultation process towards the end of 2018 which informed the establishment of the fund. The consultation process was widely publicised through a press release and subsequent press coverage in the Daily Post, Denbighshire Free Press and online news sources. Posters were distributed throughout the area, and information was widely shared on Cadwyn Clwyd social media and partner organisations social media. The consultation focused on the following:

- The community's opinion of the area and their ideas on the things that should be changed or improved about the area
- The community's views of the area of benefit of the grant
- Respondents views about the grant thresholds
- Feedback on who should be eligible to apply for the fund
- The priorities of the fund
- Membership and size of the Grants Panel

To achieve this, Cadwyn Clwyd held drop in events open to the community, one in Henllan on 27th November 2018 and another in Clawdd Newydd on 26th November 2018. Both events were well attended with over 120 present.

An online questionnaire which resulted in a total of 261 responses to the questionnaire and attended the drop-in sessions. Cadwyn Clwyd provided a consultation report to Brenig Wind Ltd and subsequently drew up the fund criteria based on the community feedback.

YMGYSYLLTU A'R GYMUNED, MARCHNATA A CHYFATHREBU COMMUNITY ENGAGEMENT, MARKETING & COMMUNICATIONS

Cafodd y gronfa ei lansio ym mis Medi 2019 a bu ymgrych trwyadl i gysylltu â'r gymuned i drin a thrafod y gronfa a'r cyfleoedd ynghlwm.

Bu i swyddogion Cadwyn Clwyd a'r ddua swyddog cefnogi o'r awdurdodau lleol fynd ati i ymgysylltu gyda'r gymuned. Bu i'r Swyddogion gynghori a chynorthwyo grwpiau i fanteisio ar gronfa Brenig Wind Ltd ynghyd â'u cyfarwyddo a'u rhoi ar ben ffordd gyda ffynonellau eraill o gyllid cyfatebol a chyllid ychwanegol pan yn briodol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu i Cadwyn Clwyd gynnal pedwar digwyddiad galw heibio yn ymwneud â chyllid er mwyn cynnig cyngor ac arweiniad i grwpiau sy'n dymuno elwa o'r gronfa. Roedd y digwyddiadau yn llwyddiant ysgubol gyda dros 200 o bobl yn mynchu'r pedwar digwyddiad. Bu tri digwyddiad yng Nghanolfan Dŵr Cymru, Llyn Brenig ac un yng Nghanolfan Bro Aled, Llansannan.

The fund was launched in September 2019 with a rigorous campaign to engage with the local community about the fund and its opportunities.

Engagement with the community was done through Cadwyn Clwyd officers and the two local authority support officers. Officers have advised and assisted groups to access Brenig Wind Ltd funds, and also directed and supported them to other sources of match funding and additional funds where appropriate. During the last 12 months, Cadwyn Clwyd held four funding drop-in events to provide advice and guidance to groups wishing to benefit from the fund. These were well attended with over 200 people attending the four events. Events were held at: Canolfan Dŵr Cymru, Llyn Brenig and Canolfan Bro Aled, Llansannan.



News

16th September 2019

Rural communities near Brenig Windfarm to benefit from £150,000 a year

By Scott Clarke
Reporter



Bu i Cadwyn Clwyd ymgymryd ag ymgyrch parhaus i'r wasg. Fe gyhoeddwyd pedwar datganiad i'r wasg mewn papurau newydd yn ymwneud â'r canlynol:

- Lansio'r broses ymgynghori
- Lansio'r gronfa
- Straeon newyddion da ar sut bu'r gronfa o fudd i Siop Gymunedol Antur Cae Cymro ar gychwyn y pandemig Covid
- Straeon newyddion da ar sut bu'r gronfa o fudd i'r gymuned yn ystod y pandemig Covid drwy gynnig cefnogaeth i'r Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol gwirfoddol yn Ninbych.

Bu gohebiaeth bellach drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan Cadwyn Clwyd yn ymwneud â'r ymgynghoriad, lansiad y gronfa, y 3 rownd ariannu, prosiectau sydd wedi derbyn grantiau a straeon newyddion da. Mae manylion am yr holl rowndiau ariannu wedi'u rhannu drwy e-byst uniongyrchol i gynghorau cymuned, grwpiau cymunedol, mudiadau partner a rhanddeiliaid.

Cafodd newyddlen ei dosbarthu at nifer sylweddol o bobl yn ystod Haf 2020 gyda gwybodaeth am y gwaith hyd yn hyn, manylion am y gronfa a gwybodaeth am ystod eang o brosiectau a chymunedau y bu i'r gronfa eu cefnogi.

ARCRAFFIAD 1 - HAF 2020

NEWYDDION BRENIG BRENIG NEWS



CRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD

Mae Cronfa Brenig yn cael ei llywio gan yr 16 bytiau grefft sy'n trol ar Ffynnyd Hiraelog o amgylch Llyn Brenig, ac a ddidherwedd diri 18 mis yn ôl i gwyrrchu digon o blwyf i ffwr i ffwrdir mil o garnedd i'r ffwrdd.

Mae cronfa Brenig yn darparu cyffwrdd ar gyfer prosiectau datblygu cymunedol a fydd yn darparu buddiannau lleol o bobl sy'n byrru yn Sir Ddinbych a Chonwy a hyd yma mae £200,000 wedi'i ddeosbarthu i sefydladau amrywiol, o adnewyddu neuaddau pentref heol a chlwb mywyd.

Dywedodd Llawn Owain o Cadwyn Clwyd: gweinidwyd yr gronfa.

Mae'n bwysig bod cymaint o bobol a phosibl yn ymwybodol o'r cyfeiriad chwergyd mae hyn yn gyfeir arhafol i cymunedau yn ac i amgylch ardal Brenig ac rydym wedi sefydlu panel grantiau o bobl leol o'r ardal i wneud y penderfynadau ari dyddiad.

CADWYN CLWYD

Cadwyn Clwyd
3 July at 17:18 ·

Mae Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Dinbych wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau grant Brenig Wind Ltd. Darllenwch eu stori a darganfod sut i wneud cais am y rownd ariannu hon <https://bit.ly/3eSugYS>. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 7fed o Awst.

Denbigh CFR Denbigh Community First Responders were successful in securing a Brenig Wind Ltd grant. Read their story and find out how to apply for this round of funding <https://bit.ly/3ir75qF> Closing date for applications is 7th August.

See translation



CADWYN CLWYD

Cadwyn Clwyd
9 July at 16:53 ·

Mae rhifyn cyntaf newyddlen Brenig bellach ar wefan Cadwyn Clwyd. Gallwch ei darllen yma <https://bit.ly/38RTe8N>

Am fwy y wybodaeth am grantiau Brenig Wind Ltd gan Cadwyn Clwyd, ewch i <https://bit.ly/3eSugYS>

The first issue of the Brenig newsletter is now on the Cadwyn Clwyd website. You can read it here <https://bit.ly/38EU88t>

For further information on Brenig Wind Ltd grants from Cadwyn Clwyd, go to <https://bit.ly/3ir75qF>

See translation

An on-going press campaign has been undertaken by Cadwyn Clwyd with four press releases featured in newspapers featuring:

- Launch of the consultation process
- Launch of the fund
- Good news stories on how the fund benefitted Antur Cae Cymro Community Shop during the early Covid pandemic
- Good news stories on how the fund benefitted the community during Covid through support for the volunteer Community First Responders in Denbigh

Further communication has been undertaken through Cadwyn Clwyd's social media and website to the consultation, the fund launch, all 3 funding rounds, projects awarded grants and good news stories. All funding rounds have been communicated via direct emails to community councils, community groups, partner organisations and stakeholders.

A newsletter was widely distributed in Summer 2020 with information about the work to date, details of the fund and information about a wide range of projects and communities supported by the fund.

CADWYN CLWYD

Cadwyn Clwyd
9 July at 16:53 ·

Mae rhifyn cyntaf newyddlen Brenig bellach ar wefan Cadwyn Clwyd. Gallwch ei darllen yma <https://bit.ly/38RTe8N>

Am fwy y wybodaeth am grantiau Brenig Wind Ltd gan Cadwyn Clwyd, ewch i <https://bit.ly/3eSugYS>

The first issue of the Brenig newsletter is now on the Cadwyn Clwyd website. You can read it here <https://bit.ly/38EU88t>

For further information on Brenig Wind Ltd grants from Cadwyn Clwyd, go to <https://bit.ly/3ir75qF>

See translation

**NEWYDDION BRENIG
BRENIG NEWS**



CRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD

Mae Cronfa Brenig yn cael ei llywio gan yr 16 bytiau grefft sy'n trol ar Ffynnyd Hiraelog o amgylch Llyn Brenig, ac a ddidherwedd diri 18 mis yn ôl i gwyrrchu digon o blwyf i ffwr i ffwr i ffwrdir mil o garnedd i'r ffwrdd.

Mae Cronfa Brenig yn darparu cyffwrdd ar gyfer prosiectau datblygu cymunedol a fydd yn darparu buddiannau lleol o bobl sy'n byrru yn Sir Ddinbych a Chonwy a hyd yma mae £200,000 wedi'i ddeosbarthu i sefyldadau amrywiol, o adnewyddu neuaddau pentref heol a chlwb mywyd.

See translation

**BRENIG NEWS
NEWYDDION BRENIG**



The Brenig Fund is driven by the 16 wind turbines that are situated around the village of Llyn Brenig. The fund aims to support local projects and initiatives in the area, such as youth clubs, sports clubs, and community groups. The fund also aims to support local businesses and encourage tourism in the area.

The Brenig Fund provides funding for community development projects aimed at delivering local benefits for the benefit of the local community. The fund has been allocated to a range of organisations from the

Y DAITH HYD YN HYN

THE JOURNEY TO DATE

RHAGFYR / DECEMBER 2018

ymgynghoriad cymunedol dros y we ynghyd â digwyddiadau galw heibio cyhoeddus, dros 260 o ymatebion uniongyrchol community consultation undertaken via the web & public drop in events, over 260 direct responses

MAI - GORFFENNAF / MAY - JULY 2019

ffurfioli mein i prawf y grantiau ynghyd â'r ffurflenni cais grants criteria formalised together with application forms

AWST / AUGUST 2019

datblygu brand a logo Brenig developing of the Brenig brand and logo

MEDI / SEPTEMBER 2019

lansio'r rownd gyntaf, cyhoeddi'r ceisiadau a'r mein i prawf ar wefan Cadwyn Clwyd first round launched, with applications and criteria publicised on the Cadwyn Clwyd website

HYDREF / OCTOBER 2019

cynnal dau ddigwyddiad galw heibio cymunedol ar ran Brenig a dyddiad cau ar gyfer rownd 1 y ceisiadau grant. Derbyn dros 60 o geisiadau gyda chyfanswm y ceisiadau grant dros £750,000

two community Brenig fund drop-in events held & closing date for round 1 grant applications. Over 60 applications received with a grant request value of over £750,000

IONAWR / JANUARY 2020

lansio ail rownd Brenig Wind Ltd ar gyfer ceisiadau second round of Brenig Wind Ltd opens for applications

CHWEFROR / FEBRUARY 2019

adroddiad ymgynghori i Brenig Wind Ltd gydag argymhellion ynghylch paramedrau a mein prawf ar gyfer y gronfa consultation report provided to Brenig Wind Ltd with recommendations for fund parameters & criteria

AWST / AUGUST 2019

cyhoeddi a dosbarthu gwahoddiad agored i bobl ymaelodi gyda'r panel. open invitation for panel membership publicised & distributed

MEDI / SEPTEMBER 2019

asesu ceisiadau a phenodi aelodau'r panel assessment and appointment of panel applications and membership

MEDI / SEPTEMBER 2019

cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd a'i hyrwyddo ar y we, mewn papurau newydd lleol a thrwy e-byst uniongyrchol publicity campaign undertaken with coverage on web, local media and direct mailing

RHAGFYR / DECEMBER 2019

cyfarfod panel cyntaf i asesu ceisiadau first panel meeting held to assess applications

CHWEFROR / FEBRUARY 2020

cynnal dau ddigwyddiad galw heibio cymunedol ar ran Brenig a dyddiad cau ar gyfer ceisiadau rownd 2 two community Brenig fund drop-in events held & closing date for round 2 grant applications

MAWRTH / MARCH 2020

derbyn dros 40 o geisiadau gyda chyfanswm y ceisiadau grant dros £500,000, ail gyfarfod panel er mwyn asesu ceisiadau over 40 applications received with a grant request value of over £500,000, second panel meeting held to assess applications

MEHEFIN / JUNE 2020

yn sgil y pandemig Covid, bu i'r panel benderfynu cynnal y drydedd rownd o geisiadau ar ddechrau Awst 2020 yn hytrach nag ar y dyddiad gwreiddiol yn Hydref 2020 due to the Covid pandemic, panel decides to bring forward the third round of applications from the original October 2020 date to early August 2020

GORFFENNAF / JULY 2020

Iansio trydedd rownd y gronfa i gymunedau allu cyflwyno ceisiadau sy'n helpu mynd i'r afael â phroblemau'n sgil y pandemig COVID the third round of the fund is opened to enable communities to submit project applications which help tackle issues arising from the COVID pandemic

AWST / AUGUST 2020

dyddiad cau ar gyfer y drydedd rownd o geisiadau closing date for the third round of applications

MEDI / SEPTEMBER 2020

panel yn cytuno i gynnal y rownd nesaf ym mis Ionawr 2021 yn unol â chyfran nesaf Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd panel agrees for next round to be opened in January 2020 in line with next tranche of Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund

MAWRTH / MARCH 2020

ail gyfarfod panel ym mis Mawrth second panel meeting held in March

MEHEFIN - GORFFENNAF / JUNE - JULY 2020

llunio dau ddatganiad i'r wasg i egluro sut mae Brenig Wind Ltd yn mynd ati i helpu cymunedau'n ystod y pandemig two separate press releases compiled to detail how Brenig Wind Ltd is helping communities in the pandemic

GORFFENNAF / JULY 2020

cyhoeddi newyddlen yn ymdrin ag effaith gadarnhaol y gronfa ar gymunedau'r ardal a'i ddosbarthu i nifer o bobl first newsletter publicised and distributed widely detailing the positive impact of the fund on local communities

MEDI / SEPTEMBER 2020

